# PWYLLGOR EGLWYSI A BUGEILIOL ESGOBAETH TYDDEWI

## GRANTIAU AR GYFER ATGYWEIRIO, ESTYN NEU DDARPARU MANNAU ADDOLI

Mae meini prawf cymhwystra a chyfraddau grant yn cael eu diwygio o bryd i'w gilydd. Dylid cael ceisiadau gan y Pwyllgor Eglwysi a Bugeiliol (PEB) yn Swyddfa Esgobaeth Tyddewi, drwy gysylltu ag Ysgrifennydd y PEB,

Mrs Janet Every ar 01267 236145 neu drwy e-bostio janetevery@churchinwales.org.uk.

**Meini Prawf**

1. Rhaid i geisiadau gael eu cefnogi gan yr Archddiacon a'r Pwyllgor Eglwysi a Bugeiliol.
2. Rhaid i geisiadau ymwneud â'r eglwys neu'r man addoli yn unig. Nid yw ceisiadau ôl-weithredol ar gyfer gwaith sydd wedi'i gwblhau yn gymwys.
3. Nid yw gwaith sy'n ymwneud â mynwentydd eglwysi'n gymwys.
4. Rhaid i'r Archddiacon ddarparu cadarnhad na fydd yr eglwys yn cau o fewn 5 mlynedd.
5. Rhaid i'r gwaith fod yn unol â rheolau'r hawleb a, lle bo'n berthnasol, caniatâd cynllunio a rheoliadau adeiladu.
6. Rhaid i geisiadau ar gyfer adeiladu mannau addoli newydd gael eu cymeradwyo gan yr Esgob. Rhaid i'r safle ar gyfer yr eglwys newydd fod yn eiddo i Gorff y Cynrychiolwyr.
7. Mae'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer grantiau'n gyfyngedig a bydd y Pwyllgor yn dymuno gweld bod y plwyf wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau arian o ffynonellau allanol. Cynnal a chadw mannau addoli presennol fydd y flaenoriaeth ac, mewn perthynas ag estyniad neu adeilad newydd, bydd angen i'r plwyf ddangos gwir angen. Bydd y Pwyllgor yn cael ei ddylanwadu gan yr awydd i ddiwallu anghenion cynulleidfa gynyddol; gwella'r defnydd a'r cyfleusterau mewn adeilad sy'n bodoli eisoes; bodloni gofynion deddfwriaeth gyfredol (megis Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Iechyd a Diogelwch, Adroddiad Asbestos, Asesiad Risg Tân).
8. Dylid darparu canlyniadau Rhan 1 o nodyn cyfarwyddyd Corff y Cynrychiolwyr "Gwerthuso Adeiladau Eglwysig" sy'n dangos y bydd yr eglwys yn cyflawni rôl allweddol yn y gwaith allgymorth yn y plwyf yn y dyfodol.
9. Mae grantiau'n daladwy naill ai'n llawn ar ôl cwblhau'r gwaith neu mewn taliadau fesul cam a gefnogir ym mhob achos gan gopi o dystysgrif y pensaer penodedig neu gymeradwyaeth ymgynghorydd cymwys proffesiynol cyfatebol.
10. Rhaid derbyn grantiau o fewn 2 flynedd i ddyddiad y dyfarniad. Dim ond ceisiadau a gyflwynir o leiaf ddwy flynedd ar ôl y dyfarniad cyntaf y gellir dyfarnu grant arall iddynt.

### Costau Cymwys

- Gwaith atgyweirio i adeiladwaith eglwys (ac eithrio gwydr lliw neu addurn oni bai bod y cyfrwy waith yn cynrychioli llai na 10% o brosiect atgyweiro mawr).

- Gwaith i wella diogelwch a hygyrchedd.
- Estyniadau neu ad-drefnu sylweddol.
- Eglwysi newydd.
- Gwaith cynnal a chadw ataliol i furiau'r fynwent
- Prosiectau i gyrraedd targedau sero net (ond gweler y terfynau isod)

### Cyfraddau grantiau

- Prosiectau Sero Net:
  - Un grant i bob esgobaeth bob blwyddyn o hyd at £10,000
  - Grantiau eraill hyd at £7,500
- Prosiectau eraill: Uchafswm grant o £3,000

| | |
|---|---|
| **Plwyf:** | **Rhif Corff y Cynrychiolwyr** |
| **Eglwys:** | |
| **Ymgynghorydd Proffesiynol (Penseiri etc.):**<br>(Disgwylir y bydd yr ymgynghorydd proffesiynol yn goruchwylio ac yn cymeradwyo unrhyw waith)<br><br>**Cyfeiriad:** | |

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **(a)** Ydy'r adeilad wedi'i restru? Os felly, rhowch radd.<br>**(b)** Ydy'r eglwys mewn ardal gadwraeth?<br>**(c)** A wnaed cais am unrhyw grantiau, e.e. Cronfa Treftadaeth y Loteri, Cadw, Pobl a Lleoedd?<br><br>Rhowch fanylion a nodwch y canlyniad os yw'n hysbys.<br><br>**(d)** Gwiriwch a oes angen y canlynol:<br>**i.** Caniatâd Cynllunio a/neu Gymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu<br>**ii.** Cydsyniad Adeilad Rhestredig/Ardal Gadwraeth<br>**iii.** Cais Hawleb (gweler Rhan 1, Adrannau 2 a 3 o Lysoedd yr Esgobaeth).<br><br>**(e)** Os ydych chi wedi rhoi ateb cadarnhaol i unrhyw un o gwestiynau (d) i, ii neu iii, rhowch fanylion y canlyniad.<br><br>**(f)** Dyddiad Arolygiad pum mlynedd diwethaf yr eglwys?<br><br>**(g)** Ydy'r gwaith arfaethedig yn ymwneud â'r argymhellion yn yr arolygaid pum mlynedd? Os felly, gofynnwn i chi ddarparu copi o'r adrannau perthnasol. | |

| | |
|---|---|
| 2. | **Crynodeb o'r gwaith**<br><br>Disgrifiad byr o'r prif eitemau gwaith arfaethedig wedi'u nodi fesul categori e.e. to; gwaith carreg; etc.<br><br>Dylid costio'r gwaith nad yw'n gymwys e.e. atgyweirio gwydr lliw, addurn neu weithiau eraill nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r adeiladwaith ar wahân ac ni ddylid eu cynnwys yn yr amcangyfrif o gost y gwaith yn 3(a) isod.<br><br>Darparwch benderfyniad y Cyngor Plwyf Eglwysig sy'n cymeradwyo'r cynigion a nodwch y dyddiad y disgwylir i'r gwaith ddechrau. |

| | | |
|---|---|---|
| 3. | **(a)** Amcangyfrif o gost y gwaith (gan gynnwys ffioedd a TAW)<br>*(ac eithrio TAW y gellir ei adennill o dan y Cynllun Mannau Addoli Rhestredig)*<br><br>**(b)** Swm sydd eisoes mewn llaw<br><br>**(c)** Swm sydd wedi'i addo<br><br>**(d)** Diffyg cyfredol **(a-(b + c))** | **£**<br><br><br>**£**<br><br>**£**__________<br><br>**£**__________ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4. | **Dadansoddiad o'r cyllid**<br>Rhowch fanylion unrhyw arian mewn llaw neu wedi'i addo.<br>Os nad oes cyllid ar gael, nodwch unrhyw ymdrechion a wnaed i godi arian. | **Mewn llaw addo** | **Wedi'i** |

| | |
|---|---|
| 5. | **Ceisiadau eraill** Rhowch fanylion unrhyw ffynonellau cyllid eraill sy'n cael eu hymchwilio.<br>________________________________________<br>________________________________________<br>________________________________________<br>________________________________________<br>________________________________________<br>________________________________________ |

| | | |
|---|---|---|
| 6. | (**a**) Cyfanswm incwm blynyddol cyfartalog yr eglwys hon yn ystod y 5 mlynedd diwethaf<br><br>(**b**) Y swm blynyddol cyfartalog a wariwyd ar gynnal a chadw yn ystod y 5 mlynedd diwethaf<br><br>**(c)** Cyfanswm incwm cyfartalog y plwyf yn ystod y 5 mlynedd diwethaf os oes mwy nag un eglwys<br><br>**(d)** Nodwch unrhyw gronfeydd wrth gefn a ddelir gan y plwyf | **£**<br><br>**£**<br><br>**£**<br><br><br>**£** |

| | | |
|---|---|---|
| | **(e)** Pa mor aml mae'r eglwys yn cael ei defnyddio ar gyfer addoliad cyhoeddus?<br><br>**(f)** Presenoldeb cyfartalog ar gyfer gwasanaethau ar y Sul?<br><br>**(g)** Presenoldeb cyfartalog ar gyfer gwasanaethau canol wythnos, os yw'n berthnasol?<br><br>**(h)** Oes yna Ysgol Sul? | |

| | | |
|---|---|---|
| 7. | **Cynnig i godi man addoli newydd**<br><br>a) Ydy'r safle'n rhydd-ddaliad?<br><br>b) Ydy'r safle ar brydles?<br><br>c) Nodwch os nad yw'n eiddo i Gorff y Cynrychiolwyr eto<br><br>d) Poblogaeth fras yr ardal i'w gwasanaethu<br><br>e) Sut mae hyn mewn perthynas â phoblogaeth y plwyf agosaf?<br><br>______________________________<br>______________________________<br>______________________________<br><br>f) Beth yw'r twf poblogaeth a ragwelir yn yr ardal?<br><br>g) Pa mor bell i ffwrdd mae'r Eglwys yng Nghymru agosaf? | |

| | |
|---|---|
| 8. | Rhowch ddisgrifiad o'r adeilad(au) arfaethedig a'r cynlluniau a'r fanyleb. Dylai'r cynigion gael cefnogaeth Pwyllgor Eglwysi a Bugeiliol yr Esgobaeth. Nodwch pryd y bydd y gwaith yn cael ei wneud. |

| | |
|---|---|
| 9. | Unrhyw nodiadau neu wybodaeth arall (gellir defnyddio dalen atodol) |

| | | |
|---|---|---|
| 10. | **Yr Ymgeisydd:** | |
| | **Cyfeiriad:** | **Dyddiad:** |
| | **Cymeradwyaeth yr Archddiacon:** | **Dyddiad:** |
| | **Cymeradwyaeth yr Esgob:**<br>***(dim ond lle mae cynnig ar gyfer man addoli newydd)*** | **Dyddiad:** |

| | |
|---|---|
| | Atodwch gopi o benderfyniad y Cyngor Plwyf Eglwysig i gymeradwyo'r cynigion a nodwch y dyddiad y disgwylir i'r gwaith ddechrau. |

Dylid dychwelyd ceisiadau wedi'u cwblhau at:

**Mrs Janet Every**
**Ysgrifennydd Eglwysi a**
**Bugeiliol Swyddfa Esgobaeth**
**Tyddewi Abergwili**
**Caerfyrddin SA31 2JG**